

Cyngor Tref Llandeilo Fawr **Llandeilo Fawr Town Council**



Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 25^{ain} o Hydref 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Dirprwy Faer y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Rebecca Butcher.
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Owen James.

Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu.

Dywedodd y SCCH Roger Anthony bod alcohol wedi cael ei ddwyn o siop y Co-operative. Cafodd y lladron eu dal ar gamerâu cylch cyfyng (CCTV) ac yr oedd yn gobeithio byddent yn cael eu dal. Roedd yr Heddlu wedi ymdrin â phroblem ar Stryd yr Eglwys, lle'r oedd tractorau'n teithio yn y cyfeiriad anghywir ar hyd yr heol unffordd. Roeddent yn parhau i fonitro cerbydau tu allan i'r ysgolion Cynradd. Roedd yr Heddlu'n mynd i fod yn brysur dros y misoedd nesaf, gan y byddai nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn y Dref. Mynegodd Mr Desmond Davies bryder bod dau gar BMW yn cael eu parcio wrth y fynedfa i Heol Alan, a'u bod yn blocio'r palmant i rieni gyda phlant bach. Byddai'r SCCH Anthony yn gofyn am i'r cerbydau gael eu symud, os oes angen.

Cof 166 / Hyd / 17 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y Cyfarfod. Dywedodd y bydd CSG yn cychwyn ar Gam 2 y gwelliannau i'r Ganolfan Ddinesig, Heol Cilgant. Fe fydd yr Hen Lyfrgell yn cael ei defnyddio gan Wyl y Synhwyrâu yn ystod eu gŵyl nhw. Yn dilyn adroddiadau gan drigolion, fe fydd y Warden Traffig yn dirwyo unrhyw un sy'n parcio yn y baeau preswyl heb fathodyn Preswylwyr neu Fathodyn Glas.

Cof 167 / Hyd / 17 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 27^{ain} o Fedi 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd hyn gan y Cyng. Gordon Kilby ac eiliwyd gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 11^{eg} o Hydref, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

Cynigwyd hyn gan y Cyng. Gordon Kilby ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn, gyda'r diwygiad canlynol:-
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr Desmond Davies ac ni fynychodd y cyfarfod.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Christoph Fischer. Roedd pawb o blaid.

Cof 168 / Hyd / 17 Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol

Ynglŷn â Cof 146/ Medi /17. Dywedodd y Cyng. Lesley Prosser ei bod hi a'r Cyng. Edward Thomas wedi cwrdd, a byddent yn cwrdd eto, i ystyried ymhellach paratoi cylchlythyr i drigolion. Roeddent yn gobeithio dod o hyd i nawdd i dalu am y gost o baratoi'r cylchlythyr.

Cof 169 / Hyd / 17 Gohebiaeth yn galw am ymateb

1. Emily Hughes, CSG, adroddodd efallai bydd y cwt Sgowtiaid ar gael, a holodd p'un ai byddai diddordeb gan y Cyngor Tref mewn cymryd yr awenau. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn anfon ateb i Emily, yn datgan diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb am y cwt. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser. Cafwyd 2 bleidlais o blaid y cynnig a phleidleisiodd 5 yn erbyn y cynnig. Cafodd y cynnig ei drechu. Fe wnaeth y Cyng. Dawn Wallace a'r Cyng. Edward Thomas ymwrthod.
2. Ford Gron Llandeilo a Llanymddyfri, yn gofyn am gymorth ariannol i atgyweirio'r car carnifal, a ddefnyddir ganddynt i godi arian i elusennau adeg y Nadolig. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r sefydliad, i ofyn am ddatganiad o'u cyfrifon, cyn y byddai'r Cyngor yn ystyried y cais. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.
3. Y Cynghorydd Sir Mair Stephens, yn gofyn am rodd tuag at yr Apêl Blwch Teganau Nadolig. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod rhodd o £100 yn cael ei roddi, yn unol ag adran 137, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rob Jones. Roedd pawb o blaid.
4. Sue John, CSG, yn gwahodd aelodau i wasanaethu fel aelodau ar y fforwm derbyniadau ysgolion. Nodwyd.
5. Mark Galbraith, CCCLI, mewn perthynas â chydweithio gyda sefydliadau eraill. Byddai'r Clerc yn ateb gyda manylion y cydweithio gyda Menter Bro Dinefwr.

Cof 170 / Hyd / 17 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Network Rail, yn dweud y byddent yn cychwyn ar y gwaith o docio'r llysdyfiant ar hyd y llwybr troed o'r orsaf drenau. Nodwyd.
2. Gareth Howells, CSG, yn dweud y byddent yn cychwyn ar yr archwiliadau blynyddol o'r ardaloedd Chwarae ar yr 16^{eg} o Hydref. Nodwyd.
3. Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin. Nodwyd.
4. Jane Harper, mewn perthynas â diffyg mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Nodwyd.

Cof 171 / Hyd / 17 Materion Ariannol

1. Cyfrifon i'w talu.

	Net	TAW	Cyfanswm
Charles B Sams Elect.DD639 (Profion Pat)	£ 84.00	£ 16.80	£ 100.80*
Terry Davies DD596	£ 245.00	£ 49.00	£ 294.00*
Terry Davies DD614, DD608a, DD618	£ 605.00	£121.00	£ 726.00*

The Works (compost)(Parc Penlan)	£ 19.96		£ 19.96*
Festive Lighting DD617(goleuadau Nadolig)	£ 577.00	£117.40	£ 704.40*
CGGC (Gwein Cyflogres Medi)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*

dd - debyd uniongyrchol # - siec * - bacs.

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 172 / Hyd / 17 Materion Ariannol Eraill

Fe wnaeth y Swyddog Cyllid annerch y Cyngor ar yr angen i bob Cynghorydd i ystyried pob elfen o wariant y Cyngor, cyn y cyfarfod ar y Gyllideb ym mis Rhagfyr. Mae'n bwysig penderfynu ar flaenoriaethau, fel bod y Cyngor yn medru rheoli eu gwariant.

Cof 173 / Hyd / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd adroddiad Mr Davies wedi cael ei ddsbarthu ymlaen llaw. Yn ei adroddiad, dywedodd fod y ffens sy'n ffinio gyda'r ardal Bowls wedi cwmpo. Cynigodd y Cyng. Robert Jones bod y gost o atgyweirio'r ffens yn cael ei dalu gan CSG, oherwydd bod y gwaith ar y rhestr rhwystrau wreiddiol a gyflwynwyd i CSG cyn Trosglwyddo Asedau, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Gordon Kilby. Byddai hyn yn cael ei drafod gan yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau. Byddai'r Cyng. Edward Thomas a'r Cyng. Gordon Kilby yn cwrdd gyda Mr Ken Murphy, mewn perthynas â storio'r goleuadau Nadolig yn Neuadd y Sir.

Cof 174 / Hyd / 17 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau

Adroddodd y Cyng. Edward Thomas am gyfarfod yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau, a gynhaliwyd ar yr 17^{eg} o Hydref.

Roedd yr Is-grŵp yn argymhell wrth y Cyngor bod arwyddion yn cael eu prynu, i'w gosod ar y gatiau ym Mharc Le Conquet a Pharc Penlan. Byddai 3 arwydd, gyda'r geiriau 'Rhaid i gŵn fod ar dennyn', yn cael eu codi ym Mharc Le Conquet, a 2 arwydd ym Mharc Penlan, gyda'r geiriau 'Rhaid cadw cŵn dan reolaeth'. Roedd pawb o blaid.

Roedd y Weithred Gyfamodi ar gyfer Parc Le Conquet wedi cael ei harwyddo a'i hanfon i CSG. Yna, byddai'n mynd i Fwrdd Gweithredol CSG i'w chymeradwyo.

Derbyniwyd dyfynbrisiau diwygiedig gan HAGS –SMP i fod o fewn cyllideb y Cyngor.

Cytunwyd byddai'r Cyngor yn trefnu cyfarfod gyda'r rhieni, er mwyn iddynt weld y cynlluniau. Roedd y gwaith o dorri'r borfa yn y ddau barc wedi cael ei ohirio dros y gaeaf. Byddai'r gwaith ar yr ardal o ddrysi ym Mharc Penlan yn cychwyn ym mis Tachwedd.

Cof 175 / Hyd / 17 Trawsgludiaeth a Phrifyrdd

1.Meleri Griffiths, CSG, mewn perthynas â chau'r heol ar Stryd y Brenin dros dro ar benwythnos Gŵyl y Synhwyr, sef yr 17^{eg} – 20^{fed} o Dachwedd. Nodwyd.

Cof 176/ Hyd / 17 Rhybudd o Gynnig i Fabwysiadu “Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016”. Cynigwyd gan y Cyng. Eifion Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas

Bydd pleidlais yn cael ei chynnal yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Tachwedd.

Cof 177/ Hyd / 17 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer yr adroddiad canlynol ar y digwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor:-
29^{ain} o Fedi 2017 Noson Wobrwyo Flynyddol Clwb Bowls Llandeilo, mynychwyd gan y
Dirprwy Faer y Cyng. Edward Thomas.

- 6^{ed} o Hydref 2017 Mynychodd y Maer ailagoriad Chess Menswear. Mynychodd y Dirprwy Faer noson Elusennol, a drefnwyd gan yr RNLI.
- 7^{fed} o Hydref 2017 Mynychodd y Maer a'r Dirprwy Faer ginio a noson wobrwyo Clwb Criced Llandeilo.
- 8^{fed} o Hydref 2017 Mynychodd y Maer agoriad Swyddogol cyfleusterau Chwaraeon Tregib.
- 13^{eg} o Hydref 2017 Roedd y Maer yn feirniad gwadd yng nghystadleuaeth 'Tywi's Got Talent' Gŵyl y Synhwyr, Llandeilo, yn y White Hart Inn.
- 14^{eg} o Hydref 2017 Mynychodd y Maer a'r Faeres gynhyrchiad o 'Pirates of Penzance' yn Ysgol Bro Dinefwr, mewn cydweithrediad â Chantorion Llandeilo ac Uplands Arts.
- 20^{fed} o Hydref 2017 Roedd y Maer yn westai yn rownd derfynol 'Tywi's Got Talent', yn y White Hart.
- 21^{ain} o Hydref 2017 Mynychodd y Cynghorwyr Gordon Kilby a Colin Jenkins gyngerdd ryngwladol y Clwb Rotari yn Ysgol Bro Dinefwr.

Cof 178/ Hyd / 17 Adroddiadau Eraill

1. Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig.
Adroddodd y Cyng. Eifion Davies bod yr holl drefniadau yn eu lle ar gyfer y digwyddiad eleni. Roedd rhyw £300 wedi cael ei roddi tuag at gost y goeden Nadolig. Byddai'r Cyng. Robert Jones yn siarad â'r Ficer, i ofyn am ganiatâd i wneud twll yn fwy i ddal y goeden Nadolig. Byddai Mr Gerwyn Thomas yn mynd ati i ddod o hyd i goeden addas a threfnu iddi gael ei chodi. Nodwyd.
2. Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.
Nodwyd yr adroddiad a ddarparwyd gan y Swyddog Technegol. Cofnodwyd enwau'r Cynghorwyr a oedd ar gael i helpu gyda'r digwyddiad. Byddai pedwar Cynghorydd yn gyfrifol am barcio ceir. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr i ymgynnull erbyn 5.30yh. Gwnaethpwyd cais hefyd i gynorthwyo chwaraewyr ieuenctid y Clwb Rygbi i glirio'r cae ar y bore dydd Sadwrn. Nodwyd.
3. Adroddiad y Lleng Prydeinig Brenhinol
Roedd y Cyng. Colin Jenkins wedi mynychu cyfarfod Blynnyddol Cangen Llandeilo. Roedd Casgliad Pabi 2016 wedi casglu £4,924.50 i'r elusen. Mr Graham Tuckwood oedd cyd-drefnydd ac ysgrifennydd newydd Cangen Llandeilo.
Gwahoddwyd y Maer i fod yn Aelod Anrhydeddus, yn ogystal â Llywydd, yn ystod ei flwyddyn yn y Swydd.
Byddai'n rhaid i gais gan y gangen am ganiatâd i bob Cynghorydd i fod yn aelodau corfforaethol i fynd trwy sianelau swyddogol y Lleng Prydeinig.
Cafodd pawb eu gwahodd i ymgynnull yn yr Hen Neuadd Farchnad ar gyfer Gorymdaith Sul y Cofio, gyda'r gwasanaeth yn cychwyn am 11.00yb.

Cof 179 / Hyd / 17 Eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frvs, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05yh.